Bwletin Awdurdod S4C
Cyfarfod 314 – 18 Medi 2008
S4C, Caerdydd

Mae'r bwletin hwn yn adrodd ar gyfarfod yr Awdurdod a gynhaliwyd ar 18 Medi 2008.

1. Adroddiad y Cadeirydd

Nododd y Cadeirydd ei fod ef a'r Prif Weithredwr wedi cyfarfod gydag Alun Ffred Jones AC yn ystod wythnos yr Eisteddfod Genedlaethol. Mae'r Gweinidog bellach wedi cyhoeddi ei ymateb i Adroddiad Pwyllgor Darlledu'r Cynulliad.

Roedd y Cadeirydd wedi mynychu cynadleddau Plaid Cymru a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn ddiweddar. Bydd Cenwyn Edwards yn cynrychioli'r Awdurdod yng nghynadleddau Llafur a'r blaid Geidwadol.

Llongyfarchodd y Cadeirydd bawb o S4C oedd wedi cymryd rhan yn yr Eisteddfod Genedlaethol eleni. Roedd lefel gwerthfawrogiad y gynulleidfa wedi bod yn anhygoel o uchel o ran yr arlwy ar y sgrin ac yn ogystal ar gyfer gweithgareddau plant ar stondin S4C.

Llongyfarchodd Winston Roddick ar ei ail-apwyntiad i'r Awdurdod am gyfnod o bedair blynedd.

2. Adroddiad y Prif Weithredwr

Cyflwynodd y Prif Weithredwr ei hadroddiad.

Cyfeiriodd at gyhoeddi cam nesaf adolygiad Ofcom o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus.

Esboniodd yr Ysgrifennydd fod trafodaethau yn parhau parthed symud gwasanaeth S4C Digidol i Blethiad 2 a nododd fod rhagor o waith yn dal i'w wneud.

Cyhoeddodd y Prif Weithredwr fod trac sylwebaeth Saesneg ar gyfer rhai rhaglenni chwaraeon wedi lansio ar 13 Medi, ac roedd wedi derbyn canmoliaeth eisoes gan wylwyr. Nododd hefyd bod S4/Clic wedi lansio yn ddiweddar, sef diweddariad a datblygiad o wasanaeth "gwylio yma" ar wefan S4C.

Rhoddodd yr Ysgrifennydd ddiweddariad i'r Awdurdod ar ymgynghoriad y Polisi Masnachu Teg.

3. Materion Eraill

Yn ogystal, trafodwyd/nodwyd y materion canlynol:

- Adroddiad Cwynion a Chydymffurfiaeth
- Adroddiad Ymchwil
- Adroddiad y Cyfarwyddwr Comisiynu